



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1162 (Cy.77)

2005 No. 1162 (W.77)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

**PLANT HEALTH,
WALES**

**Gorchymyn Tatws sy'n Tarddu o'r
Iseldiroedd (Hysbysu) (Cymru)
2005**

**The Potatoes Originating in the
Netherlands (Notification) (Wales)
Order 2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 15 Ebrill 2005, yn gosod gofynion hysbysu penodol ar bersonau sy'n mewnfario i Gymru datws sy'n tarddu o'r Iseldiroedd ac sydd wedi'u tyfu yn ystod 2004 neu'n ddiweddarach ("tatws perthnasol").

This Order which applies in relation to Wales and comes into force on 15 April 2005, places certain notification requirements upon persons importing into Wales potatoes originating from the Netherlands which have been grown during 2004 or later ("relevant potatoes").

Mae erthygl 3 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n mewnfario tatws perthnasol i Gymru wrth gynnal busnes, roi o leiaf ddau ddiwrnod o hysbysiad o'u mewnfario, mewn ysgrifen, i un o arolygwyr awdurdodedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n ofynnol hefyd i'r personau hynny roi gwybodaeth arall benodol i arolygydd ynghylch y mewnfario gan gynnwys pryd a ble y bwriedir dod â'r tatws perthnasol i mewn i Gymru (erthygl 3(1)). Mae erthygl 3 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i bersonau a fewnfariodd i Gymru datws hadyd sy'n tarddu o'r Iseldiroedd ("tatws hadyd perthnasol") ar ôl 1 Medi 2004 ond cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, ddarparu i arolygydd awdurdodedig wybodaeth benodol sy'n debyg ei natur erbyn 3 Mai 2005 fan bellaf (erthygl 3(2)).

Article 3 requires any person importing relevant potatoes into Wales in the course of business, to give at least two days' notice of such importation, in writing, to an authorised inspector of the National Assembly for Wales. Such persons are also required to furnish an inspector with certain other information concerning the importation including when and where the relevant potatoes are to be brought into Wales. (article 3(1)). Article 3 also requires persons who imported into Wales seed potatoes originating in the Netherlands ("relevant seed potatoes") after 1 September 2004 but before the coming into force of this Order, to provide to an authorised inspector specified information of a similar nature, by no later than 3 May 2005 (article 3(2)).

Mae erthygl 4 yn darparu pwerau i arolygwyr awdurdodedig at ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn a sicrhau cydymffurfedd hefyd â Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993 ("y prif Orchymyn"). Mae'r rhain yn cynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol i datws perthnasol gael eu symud i unrhyw fangre a phwer hefyd i wahardd symud, trin neu ddistrywio'r

Article 4 provides authorised inspectors with powers for the purpose of enforcing this Order and also ensuring compliance with the Plant Health (Great Britain) Order 1993 ("the principal Order"). These include the power to require the movement of relevant potatoes to any premises and also the power to prohibit the movement, treatment or destruction of such

tatws hynny neu unrhyw gynhwysydd neu becyn (Erthygl 4(3)(a) a (b)). At ddibenion gwirio cydymffurfedd â'r Gorchymyn hwn, mae gan arolygwyr bŵer hefyd i fynd i mewn i fangre er mwyn cynnal archwiliadau neu arolygiadau o eitemau penodol a geir yno (Erthygl 4(4)). Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan arolygwyr awdurdodedig heb leihau effaith pwerau a roddwyd iddynt gan y prif Orchymyn.

Mae erthygl 5 yn darparu bod person yn euog o dramgwydd os yw'n mynd yn groes i un o ofynion erthygl 3 neu'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwnnw neu os yw'n fwriadol yn rhwystro arolygydd awdurdodedig neu unrhyw berson a awdurdodwyd gan arolygydd wrth iddo arfer ei bwerau o dan erthygl 4.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

potatoes or any container or package (Article 4(3)(a) and (b)). For the purposes of checking compliance with this Order, inspectors also have a power to enter premises in order to carry out examinations or inspections of certain items found there (Article 4(4)). These powers are exercisable by authorised inspectors without prejudice to powers conferred upon them by the principal Order.

Article 5 provides that a person is guilty of an offence if, without reasonable excuse, he or she contravenes or fails to comply with a requirement of article 3 or he or she intentionally obstructs an authorised inspector or any person authorised by an inspector in exercise of his or her powers under article 4.

No regulatory appraisal has been prepared in respect of this Order.

2005 Rhif 1162 (Cy.77)

2005 No. 1162 (W.77)

IECHYD PLANHIGION,
CYMRUPLANT HEALTH,
WALESGorchymyn Tatws sy'n Tarddu o'r
Iseldiroedd (Hysbysu) (Cymru)
2005The Potatoes Originating in the
Netherlands (Notification) (Wales)
Order 2005

Wedi'i wneud 13 Ebrill 2005
Yn dod i rym 15 Ebrill 2005

Made 13 April 2005
Coming into force 15 April 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2, 3(1), (2)(b) a (4) a 4(1)(b) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(1), ac a freiniwyd ynddo bellach (2), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 2, 3(1), (2)(b) and (4) and 4(1)(b) of the Plant Health Act 1967(1), and now vested in it (2), makes the following Order:

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Hysbysu) (Cymru) 2005.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Ebrill 2005 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Title, commencement and application

1.-(1) The title of this Order is the Potatoes Originating in the Netherlands (Notification) (Wales) Order 2005.

(2) This Order comes into force on 15 April 2005 and applies in relation to Wales.

Dehongli**2. Yn y Gorchymyn hwn-**

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw unrhyw berson a awdurdodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i fod yn arolygydd at ddibenion y prif Orchymyn;

mae i "mangre" yr un ystyr â "*premises*" yn y prif Orchymyn;

ystyr "y prif Orchymyn" ("*the principal Order*") yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr)

Interpretation**2. In this Order-**

"inspector" ("*arolygydd*") means any person authorised by the National Assembly for Wales to be an inspector for the purposes of the principal Order;

"potato" ("*taten*") means any tuber or true seed or any other plant of *Solanum tuberosum* L. or other tuber-forming species or hybrid of the genus *Solanum* L.;

(1) 1967 p.8; mae adran 1(2) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 yn diffinio "competent authorities" at ddibenion y Ddeddf. Diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) a (2) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68), adran 4(1) ac Atodlen 4, paragraff 8; amnewidiwyd adran 3(4) gan adran 42 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p. 48).

(2) O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol; ac, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Orchymyn 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(1) 1967 c.8; section 1(2) of the Plant Health Act 1967 defines "competent authorities" for the purposes of the Act. Sections 2(1) and 3(1) and (2) were amended by the European Communities Act 1972 (c. 68), section 4(1) and Schedule 4, paragraph 8; section 3(4) was substituted by section 42 of the Criminal Justice Act 1982 (c. 48).

(2) Under the Transfer of Functions (Wales) (No.1) Order 1978 (S.I. 1978/272), article 2(1) and Schedule 1, the functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food under the Plant Health Act 1967 were, so far as they are exercisable in relation to Wales, transferred to the Secretary of State; and under the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1, the functions transferred to the Secretary of State by the 1978 Order were transferred to the National Assembly for Wales.

1993(1);

ystyr "taten" ("*potato*") yw unrhyw gloronen *Solanum tuberosum* L. neu unrhyw had gwirioneddol neu blanhigyn arall ohono neu unrhyw rywogaeth arall o'r genws *Solanum* L. sy'n ffurfio cloron neu unrhyw gymysgryw ohono;

ystyr "taten berthnasol" ("*relevant potato*") yw unrhyw daten a dyfwyd yn yr Iseldiroedd yn ystod 2004 neu ers hynny; ac

ystyr "taten hadyd berthnasol" ("*relevant seed potato*") yw unrhyw daten berthnasol sydd wedi'i bwriadu i'w phlannu.

Hysbysu o fewnforion

3.-(1) Ni chaiff neb, wrth gynnal busnes, fewnforio tatws i Gymru y mae'r person hwnnw'n gwybod eu bod, neu y mae ganddo sail resymol dros amau eu bod, yn datws perthnasol, oni bai ei fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd, o leiaf ddau ddiwrnod cyn y dyddiad yr oedd yn bwriadu eu mewnforio i Gymru, o'i fwriad i fewnforio'r tatws o dan sylw, ac ynghylch-

- (a) amser, dyddiad a dull arfaethedig eu mewnforio;
- (b) y pwynt mynediad arfaethedig ar gyfer dod â hwy i mewn i Gymru;
- (c) y defnydd arfaethedig ar y tatws;
- (ch) cyrchfan arfaethedig y tatws;
- (d) rhywogaeth y tatws;
- (dd) y maint o datws; ac
- (e) rhif adnabod y cynhyrchydd.

(2) Rhaid i unrhyw berson a fewnforiodd, ar ôl 1 Medi 2004 a chyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, datws hadyd perthnasol i Gymru, wrth gynnal busnes, roi, o ran y tatws hynny, hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd erbyn 3 Mai 2005 fan bellaf ynghylch-

- (a) y dyddiad y mewnforiwyd y tatws;
- (b) y pwynt mynediad lle doed â hwy i mewn i Gymru;
- (c) y defnydd arfaethedig ar y tatws;
- (ch) cyrchfan neu gyrchfan arfaethedig y tatws;
- (d) rhywogaeth y tatws;
- (dd) y maint o datws a fewnforiwyd; ac
- (e) rhif adnabod y cynhyrchydd.

"premises" ("*mangre*") has the same meaning as in the principal Order;

"the principal Order" ("*y prif Orchymyn*") means the Plant Health (Great Britain) Order 1993(1);

"relevant potato" ("*taten berthnasol*") means any potato which was grown in the Netherlands during 2004 or subsequently;

"relevant seed potato" ("*taten hadyd berthnasol*") means any relevant potato intended for planting.

Notification of imports

3.-(1) No person is permitted, in the course of business, to import into Wales, potatoes which he or she knows to be or has reasonable cause to suspect to be, relevant potatoes, unless he or she has given written notification to an inspector, at least two days prior to the intended date of importation into Wales, of his or her intention to import the potatoes in question and of-

- (a) the proposed time, date and means of importation;
- (b) the proposed point of entry into Wales;
- (c) the intended use of the potatoes;
- (d) the proposed destination of the potatoes;
- (e) the variety of the potatoes;
- (f) the quantity of potatoes; and
- (g) the producer's identification number.

(2) Any person who, after 1 September 2004 and before the coming into force of this Order, imported, into Wales in the course of business, relevant seed potatoes, must give, by no later than 3 May 2005, in respect of such potatoes, written notification to an inspector of-

- (a) their date of importation;
- (b) their point of entry into Wales;
- (c) their intended use;
- (d) their destination or proposed destination;
- (e) their variety;
- (f) the quantity imported; and
- (g) the producer's identification number.

(1) O.S. 1993/1320; a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/3213, 1995/1358 a 2929, 1996/25, 1165 a 3242, 1997/1145 a 2907, 1998/349, 1121 a 2245 a 1999/2126 a 2726, 2001/2343, 2002/1067, 2003/1157 a 2004/2365.

(1) S.I. 1993/1320; amended by S.I. 1993/3213, 1995/1358 and 2929, 1996/25, 1165 and 3242, 1997/1145 and 2907, 1998/349, 1121 and 2245 and 1999/2126 and 2726, 2001/2343, 2002/1067, 2003/1157 and 2004/2365.

Pwerau arolygydd

4.-(1) Mae darpariaethau'r erthygl hon i fod yn gymwys heb ragfarnu'r arfer gan arolygydd, o'r pwerau a roddwyd iddo gan y prif Orchymyn.

(2) Os bydd arolygydd yn gwybod neu os bydd ganddo seiliau rhesymol dros amau bod unrhyw datws perthnasol yn debygol o gael, neu fod wedi cael, eu glanio yng Nghymru yn groes i erthygl 3(1), caiff -

- (a) at ddibenion gwirio cydymffurfedd â'r prif Orchymyn; neu
- (b) at ddibenion arfer unrhyw un o'i bwerau o dan baragraff (4),

ac ar ôl dangos, os gofynnir iddo wneud hynny, ei awdurdod i weithredu, gymryd y camau ym mharagraff (3).

(3) Y camau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (2) yw-

- (a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson, gan gynnwys unrhyw berson sydd â gofal dros y cwch, yr awyren, y cerbyd, yr hofranfad neu'r cynhwysydd llwyth y mae'r tatws yn debygol o gael, neu fod wedi cael, eu glanio ohonynt, symud y tatws perthnasol neu'r tatws perthnasol amheus i unrhyw fangre;
- (b) gwahardd unrhyw berson o'r fath rhag symud, trin neu ddistrywio'r tatws perthnasol neu'r tatws perthnasol amheus neu unrhyw gynhwysydd neu becyn.

(4) At ddibenion gwirio cydymffurfedd â'r Gorchymyn hwn, caiff arolygydd, ar ôl dangos, os gofynnir iddo wneud hynny, ei awdurdod i weithredu, fynd i mewn, ar unrhyw adeg resymol, i fangre ac eithrio mangre sy'n cael ei defnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd, ac -

- (a) archwilio, ffotograffio neu farcio unrhyw ran o'r fangre neu unrhyw beth yn y fangre, gan gynnwys unrhyw datws;
- (b) cymryd samplau o, neu oddi ar, unrhyw datws neu unrhyw gynhwysydd neu becyn; ac
- (c) arolygu unrhyw ddogfennau neu gofnodion (ar ba ffurf bynnag y maent yn cael eu dal) sy'n ymwneud â chynhyrchu neu fasnachu unrhyw datws, gwneud copiâu o'r dogfennau neu'r cofnodion hynny, neu eu symud er mwyn gwneud copiâu ohonynt.

(5) Caiff arolygydd, at ddibenion arfer unrhyw un o'i bwerau o dan baragraff (4), agor, neu awdurdodi unrhyw berson i agor ar ei ran neu ar ei rhan, unrhyw gynhwysydd neu becyn neu ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu unrhyw berson sydd â gofal dros unrhyw gynhwysydd neu becyn ei agor yn y modd a bennir gan yr arolygydd.

(6) Pan gedwir unrhyw ddogfen neu gofnod o'r math

Powers of an inspector

4.-(1) The provisions of this article are to apply without prejudice to the exercise, by an inspector, of the powers conferred upon him or her by the principal Order.

(2) If an inspector knows or has reasonable grounds for suspecting that any relevant potatoes are likely to be, or have been, landed in Wales in contravention of article 3(1), he or she may-

- (a) for the purpose of checking compliance with the principal Order; or
- (b) for the purpose of exercising any of his or her powers under paragraph (4),

and on production of his or her authority to act if so required, take the steps in paragraph (3).

(3) The steps referred to in paragraph (2) are-

- (a) to require any person, including any person in charge of the vessel, aircraft, vehicle, hovercraft or freight container from which the potatoes are likely to be landed or have been landed, to move the relevant potatoes or suspected relevant potatoes to any premises;
- (b) to prohibit any such person from moving, treating or destroying the relevant potatoes or suspected relevant potatoes or any container or package.

(4) For the purpose of checking compliance with this Order, an inspector may, on production of his or her authority to act if so required, and at all reasonable times, enter any premises, other than premises used wholly or mainly as a dwelling, and-

- (a) examine, photograph or mark any part of the premises or any object on the premises, including any potatoes;
- (b) take samples of, or from, any potatoes or any container or package; and
- (c) inspect, make copies of, or for the purpose of making copies, remove any documents or records (in whatever form they may be held) relating to the production of or trade in any potatoes.

(5) An inspector may, for the purpose of exercising any of his or her powers under paragraph (4), open, or authorise any person to open on his or her behalf, any container or package or require the owner or any person in charge of any container or package to open it, in such manner as the inspector may specify.

(6) Where any such document or record as is

a grybwyllwyd ym mharagraff (4)(c) drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff arolygydd-

- (a) mynd at unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw aparatws neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r ddogfen neu'r cofnod, a'u harchwilio a gwirio eu gweithrediad; a
- (b) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, yr aparatws neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'u gweithredu, roi i'r arolygydd unrhyw gymorth y mae arno angen rhesymol i'w gael.

Tramgwyddau

5.-(1) Bydd person yn euog o dramgwydd os ydyw, heb esgus rhesymol y mae'n rhaid i'r person hwnnw ei brofi-

- (a) yn mynd yn groes i un o ofynion erthygl 3 neu'n methu cydymffurfio ag ef; neu
- (b) yn fwriadol yn rhwystro arolygydd neu unrhyw berson a awdurdodir gan arolygydd wrth iddo arfer ei bwerau o dan erthygl 4.

(2) Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan baragraff (1) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

13 Ebrill 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

mentioned in paragraph (4)(c) is kept by means of a computer, an inspector may-

- (a) have access to, and inspect and check the operation of, any computer and any associated apparatus or material which is or has been in use in connection with the document or record; and
- (b) require any person having charge of, or otherwise concerned with the operation of, the computer, apparatus or material to afford him or her such assistance as he or she may reasonably require.

Offences

5.-(1) A person shall be guilty of an offence if, without reasonable excuse, proof of which shall lie on him or her-

- (a) he or she contravenes or fails to comply with a requirement of article 3; or
- (b) he or she intentionally obstructs an inspector or any person authorised by an inspector in exercise of his or her powers under article 4.

(2) A person guilty of an offence under paragraph (1) shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

13 April 2005

The Presiding Officer of the National Assembly

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 1162 (Cy.77)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

Gorchymyn Tatws sy'n Tarddu o'r
Iseldiroedd (Hysbysu) (Cymru)
2005

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 1162 (W.77)

**PLANT HEALTH,
WALES**

The Potatoes Originating in the
Netherlands (Notification) (Wales)
Order 2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00


W71/4/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091115-6



9 780110 911151